# CYFANSODDIAD CLWB PÊL-DROED TEIGROD TEILO FOOTBALL CLUB

*(wedi'i gymeradwyo yn y CCA ar 27ain o Dachwedd 2007)*

## 1. Enw

Enwir y clwb yn *Clwb Pêl-droed Teigrod Teilo Football Club* (o hyn ymlaen fe'i gelwir y clwb).

## 2. Cysylltiad

Fe fydd y clwb yn aelod o Gymdeithas Pêl-droed Gorllewin Cymru

## 3. Nodau ac Amcanion

Nod y clwb fydd hyrwyddo chwarae pêl-droed fel rhan o gymdeithas mewn ffordd bositif i'w aelodau a chynnig cyfleoedd hyfforddi a chystadlu i'r holl aelodau sydd am chwarae. Bydd yn ceisio cynnwys ei holl aelodau, rhai hŷn ac iau, wrth ymgymryd â'i weithgareddau er mwyn sicrhau bod darpariaeth gynaliadwy a safonol ar gael i bawb.

## 4. Datganiad Cydraddoldeb

Mae gan y clwb ymrwymiad llawn at egwyddorion cyfleoedd cyfartal. Ni fydd unrhyw gyfranogwr, gwirfoddolwr, ymgeisydd am swydd neu weithiwr cyflogedig o'r clwb yn derbyn triniaeth lai ffafriol o'i gymharu ag unrhyw un arall ar sail rhyw, oedran, lliw, anabledd, tarddiad ethnig, statws rhieni neu briodasol, cred grefyddol, dosbarth cymdeithasol neu dueddfryd rhywiol.
Bydd y clwb yn sicrhau bod hawl agored gan bawb sydd am wneud hynny i gyfranogi yng ngweithgareddau'r clwb, beth bynnag eu gallu, a'u bod yn cael eu trin yn deg.
Mae'r clwb yn cydnabod ei gyfrifoldebau cyfreithiol i beidio â gwahaniaethu ac fe fydd yn ystyried unrhyw wahaniaethu gan weithiwr cyflogedig, cyfranogwr neu wirfoddolwr yn sail i gamau disgyblu yn unol â rheolau perthnasol y clwb. Os bydd sefyllfa'n codi pan fo materion lles a chydraddoldeb yn gwrthdaro, bydd yr ystyriaethau lles yn drech.

## 5. Datganiad Lles

Mae'r clwb yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu lles yr holl blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n aelodau'r clwb. Nod y clwb fydd darparu pêl-droed o safon dda mewn amgylchedd diogel trwy fabwysiadu gweithdrefnau ac ymarferion gweithiol Polisi Lles Cymdeithas Bêl-droed Cymru

## 6. Aelodaeth

6.1 Bydd y clwb yn cynnwys aelodau hŷn ac iau

6.2 Bydd aelodaeth hŷn yn agored i:

- rieni/gofalwyr aelodau iau sydd wedi talu eu tanysgrifiad blynyddol.
- unrhyw aelodau o'r pwyllgor rheoli neu dîm hyfforddi
- unrhyw oedolion sydd am gefnogi'r clwb drwy wneud cyfraniad blynyddol

6.3 Bydd aelodaeth iau yn agored i blant a phobl ifanc o'r adeg dechrau eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol hyd nes eu bod yn 18, fel mae'r terfyn oed presennol ar gyfer bod yn gymwys dan 18 yn diffinio.

6.4 Wrth dderbyn aelodaeth, mae'r sawl hwnnw yn cytuno i gadw at Gyfansoddiad a Chod Ymddygiad y Clwb, penderfyniadau Pwyllgor Rheoli'r Clwb, Cod Ymddygiad Pêl-droed priodol CPDC a rheolau unrhyw gynghrair pêl-droed lle byddant yn cynrychioli'r clwb. Mae aelodau hŷn y clwb yn gyfrifol am annog aelodau iau'r clwb i gadw at yr uchod.

6.5 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli fydd ystyried os gaiff ceisiadau ymaelodi eu derbyn. Caiff y penderfyniad ei wneud yn unol â'r datganiad Cydraddoldeb ym mharagraff 4.

## 7. Tâl Ymaelodi

7.1 Bydd taliadau ymaelodi ar gyfer pob tymor yn cael eu gosod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol. Gall y Pwyllgor ddewis derbyn llai na'r tâl cyfan mewn amgylchiadau eithriadol.

7.2 Caiff taliadau aelodaeth blynyddol eu casglu ym mis Medi bob blwyddyn fel arfer ac maent yn daladwy i Drysorydd y clwb. Ni fydd unrhyw aelod yn gymwys i gynrychioli'r clwb os nad yw ef/hi wedi talu'r aelodaeth a gytunwyd o fewn mis i ddechrau'r tymor.

## 8. Pwyllgor Rheoli

8.1 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn gweithredu ar ran aelodau'r clwb ac fe fydd yn cynnwys y Swyddogion enwebedig canlynol: Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Swyddog Lles, Cydlynydd Hyfforddi a Swyddog Codi Arian/Cyhoeddusrwydd. Caiff swyddogion ychwanegol neu aelodau cyffredinol ychwanegol eu hethol mewn CCB gan ystyried mai uchafswm aelodaeth i'r Pwyllgor yw deuddeg.

8.2 Caiff y Swyddogion hyn eu penodi mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac fe fyddant yn eu swyddi am flwyddyn galendr, gan efallai geisio cael eu hail-ethol yn CCB y flwyddyn ganlynol. Petai Swyddog neu aelod o'r Pwyllgor yn ymddiswyddo rhwng dau CCB bydd gan y Pwyllgor Rheoli'r dewis o lenwi'r swydd wag dros dro tan y CCB nesaf.

8.3 Bydd unrhyw rwymedigaethau sy'n cael eu creu yn cwympo ar aelodaeth y clwb, ar yr amod fod y Pwyllgor Rheoli yn gweithredu yn unol â'r Cyfansoddiad, yn onest a didwyll.

8.4 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cwrdd yn chwarterol fel arfer (neu'n fwy rheolaidd os yw'r Cadeirydd yn penderfynu) ac fe fydd yr Ysgrifennydd yn ymgynnull yr holl gyfarfodydd.

8.5 Pedwar fydd nifer y cworwm angenrheidiol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli. Bydd hawliau pleidleisio cyfartal gan yr holl aelodau. Os bydd pleidlais glwm bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais ychwanegol i'w bwrw.

8.6 Pe na bai'r Cadeirydd ar gael ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli fe fydd yr Ysgrifennydd yn gweithredu'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

8.7 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli fydd dehongli Cyfansoddiad y Clwb mewn perthynas i weithredu materion y clwb. Ni ellir ond cytuno ar newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad mewn CCB neu CCA. Fel corff, fe all y Pwyllgor Rheoli wneud argymhellion ar gyfer cyfarfod o'r fath.

8.8 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli yw'r holl eiddo sy'n berchen i neu ar brydles gan y clwb.

8.9 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli yw recriwtio a rheoli'r holl staff proffesiynol mae'r clwb yn eu cyflogi.

## 9. <u>Cyllid</u>

9.1 Bydd yr holl arian a godir gan, neu ar ran y clwb yn cael ei ddefnyddio i hybu nodau ac amcanion y clwb ac nid at unrhyw ddefnydd arall.

9.2 Cyfrifoldeb Trysorydd y clwb yw cynnal cyfrifon ariannol y clwb, gan fanylu'r holl incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a wnaed a chynhyrchu Cyfrifon Blynyddol ar gyfer cael eu cymeradwyo yn y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

9.3 Bydd y clwb yn penodi archwilydd ymhob CCB

9.4 Mae blwyddyn ariannol y clwb yn dechrau ar y 1af o Chwefror ac yn gorffen ar 31ain o Ionawr.

9.5 Bydd arian y clwb yn cael ei gadw mewn banc neu gymdeithas adeiladu mewn cyfrif neu gyfrifon yn enw'r clwb. Bydd yr holl sieciau, drafftiau ac ati a dynnir o'r cyfrif yn cael eu harwyddo gan un o'r swyddogion canlynol, Cadeirydd, Ysgrifennydd neu Drysorydd ac yn cael ei gydarwyddo gan un arall o'r swyddogion hyn neu aelod arall o'r Pwyllgor Rheoli sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny yn y CCB blaenorol.

## 10. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfodydd eraill

10.1 Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) y clwb fel arfer yn cael ei gynnal ym mis Mawrth bob blwyddyn a bob tro o fewn tri mis i ddiwedd blwyddyn ariannol y clwb. Yn y cyfarfod hwn fe fydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Rheoli a'r gyfriflen archwiliedig hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

10.2 Bydd yr Ysgrifennydd yn rhoi nid llai na 21 diwrnod o rybudd ynglŷn â dyddiad y CCB i'r holl aelodau.

10.3 Bydd holl etholiadau'r Swyddogion yn digwydd yn y CCB. Bydd angen eilydd ar bob enwebiad. Bydd pob enwebydd ac eilydd yn gymwys i bleidleisio.

10.4 Bydd dyddiad y CCB nesaf yn cael ei bennu yn y CCB blaenorol.

10.5 Mewn CCB neu CCA, bydd gan bob aelod hŷn o'r Clwb un bleidlais gyfartal. Bydd pleidlais yn cael ei chario, yn syml, gan y mwyafrif yn amodol i adran 13 isod. Os bydd pleidlais glwm bydd gan y Cadeirydd un bleidlais ychwanegol i'w bwrw. Nid oes gan aelodau iau hawl i bleidleisio.

10.6 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol fydd 10 aelod hŷn sy'n gymwys i bleidleisio.

10.7 Gelwir Cyfarfod Cyffredinol Anghyffredin (CCA) trwy gais ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd wedi'i arwyddo gan nid llai na 10 o'r aelodau hŷn. Bydd gan y Pwyllgor Rheoli'r dewis i alw CCA trwy benderfyniad gan fwyafrif yr aelodau. Bydd yr holl weithdrefnau, rheolau a phenderfyniadau sy'n berthnasol wrth gynnal CCB yn berthnasol i CCA.

## 11. Disgyblaeth ac Apeliadau

11.1 Bydd gan y Pwyllgor Rheoli'r awdurdod i gymryd camau disgyblu priodol yn erbyn unrhyw aelod neu weithiwr cyflogedig o'r clwb a bydd ganddo'r dewis i derfynu aelodaeth neu gyflogaeth os canfu fod unrhyw un yn euog o ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidiol i'r clwb.

11.2 Bydd y sawl sy'n destun unrhyw benderfyniad disgyblu yn cael gwybod am y penderfyniad o fewn 7 diwrnod i'r penderfyniad hwnnw.

11.3 Os byddai mater disgyblu yn ymwneud â lles plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fe fydd Swyddog Lles y Gymdeithas yn yr Ardal yn cael ei hysbysu.

11.4 Bydd gan bob unigolyn hawl i Apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad disgyblu gan y Pwyllgor Rheoli.

11.5 Dylid gwneud cais am Wrandawiad Apêl i'r Ysgrifennydd neu'r Cadeirydd o fewn 14 diwrnod i gael eich hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad disgyblu.

11.6 Pan fod angen gwrandawiad apêl, fe fydd y Cadeirydd yn penodi aelod arall o'r Pwyllgor Rheoli i'w ymgynnull. Bydd y sawl hwnnw yn trefnu fod o leiaf dau (ond nid mwy na phedwar) o aelodau hŷn yn mynychu. Ni ddylai'r aelodau hŷn eraill hyn fod wedi bod ynghlwm gyda'r gwrandawiad disgyblu gwreiddiol, na'r digwyddiadau a arweiniodd at alw'r gwrandawiad disgyblu.

## 12. Trefn Diddymu

12.1 Os digwydd i'r clwb beidio â bodoli ac yn dilyn clirio'r holl ddyledion ac unrhyw rwymedigaethau, bydd unrhyw asedau adeg y diddymiad yn dod yn eiddo i Gymdeithas Pêl-droed Gorllewin Cymru. Ni fydd unrhyw aelod yn meddiannu unrhyw asedau sydd gan y clwb.

12.2 Gellir dod â'r clwb i ben trwy ei gynnig a'i eilio gan aelodau'r clwb a'i basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair mewn cyfarfod arbennig wedi'i ymgynnull i'r perwyl hwnnw, yn dilyn cais ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan 10 o aelodau hŷn y clwb. Bydd rhybudd ynglŷn â chyfarfod arbennig o'r fath yn cael ei roi i'r holl aelodau hŷn o leiaf 21 diwrnod o flaen llaw.

## 13.0 Adolygu'r Cyfansoddiad

13.1 Dylid adolygu'r cyfansoddiad hwn o leiaf unwaith bob tair blynedd neu bryd bynnag fo'r Pwyllgor Rheoli yn credu ei fod yn briodol.

13.2 Dim ond mewn CCB neu CCA y clwb y gellir cytuno ar newidiadau i'r Cyfansoddiad a dim ond yr aelodau hŷn all gynnig newidiadau.

13.3 Bydd angen cyflwyno unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd nid llai na 21 diwrnod cyn dyddiad y CCB; dylid arwyddo ac eilio pob newid awgrymedig. Nid oes angen rhybudd o'r fath ar gyfer newidiadau mae'r Pwyllgor Rheoli yn eu hawgrymu. Ni ellir cyflwyno cynnig ynglŷn â newid y Cyfansoddiad o lawr y cyfarfod.

13.4 Os digwydd i gynnig ynglŷn â newid y Cyfansoddiad gael ei gyflwyno, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r aelodau ynglŷn â'r cynnig arfaethedig nid llai na 14 diwrnod cyn y CCB.

13.5 Dylid cyflwyno unrhyw newidiadau i'r cynnig arfaethedig a gynigiwyd ac a eiliwyd nid hwyrach na saith niwrnod cyn y cyfarfod.

13.6 Bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n pleidleisio ac yn bresennol er mwyn gwneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad; bydd y rheol hon yn cael blaenoriaeth dros weithdrefnau pleidleisio arferol.

13.7 Bydd y Pwyllgor Rheoli yn delio gyda'r holl faterion sy'n codi, nad yw'r Cyfansoddiad yn darparu ar eu cyfer, a'u penderfyniad hwy fydd yn derfynol.